

Crynodeb Gwirio Ansawdd Meddygfa Llansamlet Dyddiad y gweithgarwch: 7 Mawrth 2022

Dyddiad cyhoeddi: 11 Ebrill 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tydfil
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wiriad ansawdd o bell o Feddygfa Llansamlet, Abertawe fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r feddygfa yn darparu gwasanaethau meddyg teulu i bron 11,000 o gleifion o fewn yr ardaloedd a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a chaiff ei chefnogi gan nifer o feddygon teulu, ymarferwyr nyrso, gweithwyr cymorth gofal iechyd, ffisiotherapyddion, a staff cymorth.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015. Darperir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis a meddyg teulu arweiniol ar 7 Mawrth 2022, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am eu gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llwybrau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall cleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a'r prosesau sy'n galluogi cleifion i drefnu apwyntiadau.
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth iddynt gyrchu gwasanaethau gofal iechyd drwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19? Beth yw map trywydd y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau o wasanaethau a ddarperir cyn COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau yn cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?
- Pa drefniadau sydd ar waith i sicrhau yr ymgwymerir â thrafodaethau a phenderfyniadau 'Na cheisier dadebru cardio-anadlol' mewn ffordd briodol a sensitif?

-
- Pa mor hawdd ydyw cael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd a gwasanaethau y tu allan i oriau gwaith ar hyn o bryd?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Yr asesiadau risg amgylcheddol mwyaf diweddar
- Asesiad risg diogelwch tân
- Polisiâu a gweithdrefnau COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a gynhaliwyd gan y feddygfa, a oedd yn cynnwys asesiad risg COVID-19 cyffredinol ac asesiad risg diogelwch tân ar gyfer y safle. Cawsom ein cynghori y cwblheir asesiad risg ychwanegol ar gyfer gwaith allanol, er enghraifft pan fydd gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn mynychu cartref gofal neu gartref claf. Lluniwyd a gweithredwyd protocol ymweliad cartref yn ystod y cyfnod hwn hefyd.

Clywsom fod amgylchedd y feddygfa wedi cael ei asesu ar ddechrau pandemig COVID-19 i gynorthwyo â'r gwaith o reoli heintiau a'i wella. Dywedwyd wrthym fod sawl newid wedi'u gwneud i'r amgylchedd, gan gynnwys gosod sgriniau gwydr yn y dderbynfa, mae drysau'r feddygfa yn cael eu cloi, gyda chysylltedd system intercom i'r dderbynfa i'w ddefnyddio i ddod i mewn, mae'r ardaloedd aros wedi'u tapio i ffwrdd gyda thâp perygl i alluogi cadw pellter cymdeithasol digonol, ac mae ystafell glinigol benodol wedi'i hail-bwrpasu ar gyfer asesu/trin cleifion sydd â COVID-19 neu yr amheuir bod ganddynt COVID-19.

Dywedwyd wrthym fod y feddygfa wedi aros ar agor trwy gydol pandemig COVID-19. Roedd cleifion yn gallu cael apwyntiadau a/neu gyngor meddygol drwy ffonio'r feddygfa a darparu rheswm cryno am eu galwad, neu drwy gwblhau ffurflen ar-lein drwy Engage Consult¹, cyn iddynt gael eu brysbennu² gan feddyg teulu. Mae'r meddygon teulu yn asesu pob cais gan cleifion a byddant yn gwneud penderfyniad o ran y cwrs gorau o driniaeth, neu'n trefnu

¹ Mae Engage Consult yn galluogi practisau meddygon teulu i gynnig ymgynghoriadau ar-lein i'w cleifion. Mae hyn yn galluogi cleifion i gyflwyno eu symptomau neu geisiadau i'w meddyg teulu yn electronig.

² Yr asesiad rhagarweiniol o gleifion er mwyn penderfynu pa mor frys yw eu hangen am driniaeth a natur y driniaeth sydd ei hangen.

ymgyngoriad dros y ffôn neu apwyntiad wyneb yn wyneb gyda'r clinigwr mwyaf priodol.

Dywedwyd wrthym fod gan yr holl staff asesiad risg COVID-19 unigol i asesu'r risgiau personol sydd ynghlwm wrth barhau i gyflawni eu rôl yn ystod y pandemig ac i dynnu sylw at unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'w harferion gwaith.

Cawsom wybod bod y feddygfa hefyd yn darparu gwasanaeth wedi'i deilwra i gartref gofal lleol a'u bod wedi parhau i ymweld â'r cartref drwy gydol y pandemig. Gall y cartref gysylltu â'r feddygfa bob bore drwy gyfeiriad e-bost penodol gyda manylion unrhyw ofynion ymweliad, ymgynghoriadau neu geisiadau presgripsiwn. Yn ogystal, mae ceir ymgynghoriad dros y ffôn yn wythnosol, lle gall y cartref gynghori ar unrhyw geisiadau arferol neu faterion sy'n datblygu.

Gwnaethom hefyd ofyn sut mae'r feddygfa yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym er nad oes cleifion wedi gofyn am wasanaethau yn y Gymraeg hyd yn hyn, bod aelod o staff yn y feddygfa sy'n siarad Cymraeg yn rhugl ac y gallai ddiwallu anghenion cleifion pe bai angen. Gall y feddygfa hefyd ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu a ddarperir gan y bwrdd iechyd pe bai angen.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Polisi atal heintiau cyffredinol a pholisi penodol ynghylch COVID-19
- Archwiliad a chynllun gweithredu atal a rheoli heintiau
- Yr asesiadau risg / polisiau rheoli heintiau mwyaf diweddar
- Amserlenni glanhau
- Cofnodion hyfforddiant staff

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth fod gan y feddygfa bolisi atal a rheoli heintiau ar waith. Mae'r polisi wedi'i ddiwygio i adlewyrchu'r drefn ar gyfer rheoli COVID-19. Cawsom wybod bod y tîm rheoli yn parhau i sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau mewn canllawiau neu arferion. Gwelsom hefyd dystiolaeth o archwiliadau a gynhaliwyd i asesu a rheoli'r risg o heintiau a oedd yn cynnwys cynllun gweithredu i drefnu camau adferol, gyda

llawer ohonynt yn cael eu gweithredu ar yr un diwrnod. Aethpwyd i'r afael â'r holl welliannau eraill a nodwyd bellach, a chawsom sicrwydd bod cynnydd wedi'i wneud i sicrhau bod diogelwch cleifion yn cael ei amddiffyn.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod cwmni allanol yn glanhau'r feddygfa ac er nad oedd y weithdrefn lanhau ei hun wedi newid rhyw lawer yn ystod y pandemig, newidiwyd y cynnyrch a ddefnyddir yn unol ag argymhellion. Er enghraifft, roeddent bellach yn defnyddio mopiau â chodau lliw gwahanol ar gyfer dihalogi gwahanol ardaloedd yn y feddygfa.

Cafwyd lefelau digonol o stoc cyfarpar diogelu personol³ gan y bwrdd iechyd, a chaiff lefelau stoc eu monitro gan reolwr y practis yn rheolaidd. Gwelsom fod cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar gyfer atal a rheoli heintiau yn uchel iawn. Dywedwyd wrthym hefyd fod yr holl staff yn y feddygfa wedi cael hyfforddiant ar y ffordd gywir o ddefnyddio cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys gwisgo a diosg⁴ cyfarpar a chael gwared ar gyfarpar yn ddiogel ar ôl ei ddefnyddio.

Gwnaethom ofyn sut roedd cleifion yr amheuir bod ganddynt salwch heintus yn dod i mewn i'r feddygfa yn ddiogel. Eglurodd y meddyg teulu arweiniol fod staff y feddygfa wedi cael hyfforddiant ychwanegol i asesu risg a sgrinio cleifion i fynychu'r practis lle bo angen. Cafodd ystafell glinigol hunangynhwysol â mynediad ar wahân ei hail-bwrpasu'n benodol ar gyfer cleifion a oedd angen ymgynghoriad wyneb yn wyneb ac a oedd wedi cael cadarnhad bod ganddynt COVID-19 neu yr amheuir bod ganddynt COVID-19. Gofynnwyd i gleifion ffonio ar ôl cyrraedd ac aros yn eu car nes i aelod o staff eu tywys i'r feddygfa drwy ddrws ochr a oedd yn arwain yn uniongyrchol i mewn i'r ystafell glinigol benodol. Yr ystafell hon oedd lle y byddent yn cael eu hasesu a'u trin gan yr aelod mwyaf priodol o staff clinigol, a fyddai'n gwisgo cyfarpar diogelu personol uwch. Cyn gynted ag y byddent wedi cael eu hadolygu a/neu eu trin, byddai'r claf yn cael eu tywys allan o'r adeilad drwy'r un drws ochr yr aethant i mewn drwyddo. Byddai'r ystafell glinigol wedyn yn cael ei glanhau'n ddwys.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut, yng ngoleuni effaith COVID-19, maent wedi addasu eu gwasanaeth. Gwnaethom archwilio sut mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda thimau (neu wasanaethau) gofal sylfaenol eraill ac yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

³ Cyfarpar diogelu personol yw dillad amddiffynnol, menyg, masgiau neu ddillad neu gyfarpar eraill a ddylunnir i amddiffyn corff y gwisgwr rhag anaf neu haint.

⁴ Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

-
- Cynlluniau parhad busnes
 - Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
 - Asesiadau risg a gymerwyd mewn perthynas ag atal a rheoli heintiau, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch staff
 - Hunanasesiad AGIC

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Roedd rheolwr y practis a'r meddyg teulu arweiniol yn eglur a gwybodus iawn am eu rolau ac roedd ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau. Roedd yn amlwg drwy gydol y gwiriad ansawdd bod cynllunio a gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf o ganlyniad i effaith COVID-19. Gwelsom dystiolaeth fod gan y feddygfa gynllun parhad busnes a oedd wedi'i adolygu'n rheolaidd. Mae'r cynllun yn sicrhau parhad yn narpriaeth y gwasanaeth a gofal diogel y cleifion yn ystod y pandemig a thu hwnt.

Dywedwyd wrthym ar ddechrau'r pandemig bod nifer o wasanaethau wedi'u hatal, roedd y rhain yn cynnwys triniaethau bach, adolygiadau wyneb yn wyneb ar gyfer diabetes, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint⁵ ac asthma. Fodd bynnag, darparwyd cefnogaeth ar gyfer y salwch cronig hyn o bell. Gwnaed atgyfeiriadau o hyd i ofal eilaidd pan roedd angen a chynigiwyd apwyntiadau wyneb yn wyneb os ystyriwyd eu bod yn hollol angenrheidiol.

Eglurodd rheolwr y practis fod cynllun adfer ar gyfer ailsefydlu gwasanaethau ar ôl y pandemig ar waith ac mae wedi amlygu y gallai fod prinder apwyntiadau fflebotomi arferol, fodd bynnag, mae cynllun ar waith i hwyluso'r broses o gael apwyntiadau ar gyfer fflebotomi a rheoli clefyd cronig. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys hyfforddi gweithiwr cymorth gofal iechyd y feddygfa i weithredu'r technegau hyn. Mae adolygiadau diabetes hefyd wedi cael eu hail-gychwyn, fodd bynnag, nid yw'r adolygiadau asthma a chlefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint wedi cael eu hail-gychwyn eto gan fod y nyrs penodedig yn dal i gael hyfforddiant yn y maes hwn. Bydd y gwasanaethau hyn ailddechrau yn fuan.

Dywedwyd wrthym y cynhelir cyfarfodydd clwstwr⁶ bob dau fis ac fe'u mynychir yn rheolaidd. Mae dau o'r meddygfeydd clwstwr wedi cyfarfod wyneb yn wyneb, ond, oherwydd lleoliad daearyddol y feddygfa, ymunwyd â'r cyfarfodydd o bell.

Cawsom wybod bod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig a bod rheolwr y practis a'r meddyg arweiniol yn canmol staff y feddygfa a'r ffordd yr oeddent wedi ymateb i anghenion y feddygfa, y cleifion a staff eraill yn fawr. Gadawodd un partner meddyg teulu y feddygfa ym mis Mehefin 2021 felly defnyddiodd y feddygfa feddyg teulu cyflogedig dros dro ym mis Medi 2021 a oedd yn gweithio pedwar sesiwn yr wythnos am chwe mis. Yn ogystal, gwnaeth aelod gwerthfawr arall o staff ymddeol yn ystod y pandemig, ond roedd hwn yn

⁵ Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint yw'r enw am grŵp o gyflyrau sy'n cael effaith ar yr ysgyfaint sy'n achosi anawsterau anadlu.

⁶ Grŵp o feddygon teulu sy'n gweithio gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol eraill i gynllunio a darparu gwasanaethau'n lleol yw clwstwr. Caiff clystyrau eu pennu gan Fyrddau Iechyd Lleol GIG Cymru. Mae meddygon teulu yn y clystyrau yn chwarae rhan allweddol wrth gynorthwyo gwaith parhaus Rhwydwaith Ardal.

ymddeoliad disgwylidig.

Gwnaethom ymholi ymhellach pa drefniadau oedd ar waith i sicrhau bod penderfyniadau "Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol" yn cael eu cynnal yn briodol ac yn sensitif, a chawsom sicrwydd bod yr holl drafodaethau a phenderfyniadau yn holl wybodus, wedi'u gweithredu'n sensitif a bod cymorth digonol yn cael ei roi i'r cleifion hynny ac unrhyw berthnasau a allai fod yn rhan o'r broses. Yn ogystal, lle caiff cleifion eu rhyddhau o'r ysbyty a bod ganddynt orchymyn Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol ar waith, cânt eu hadolygu a'u tynnu/adnewyddu fel sy'n briodol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.